# Dathlwch ein bywyd morol rhyfeddol ar Ddiwrnod Moroedd y Bydlife this World Oceans Day

07/06/2019



Er mwyn nodi Diwrnod Moroedd y Byd, gyda chymorth Moroedd Byw Cymru, rydym yn rhannu straeon rhai o'n creaduriaid tanddwr diddorol sy'n byw oddi ar arfordiroedd Ynysoedd Prydain.

Mae Moroedd Byw Cymru wedi rhannu ffeithiau hwyliog â ni am 12 o greaduriaid môr rhyfeddol, sydd i gyd i'w gweld o amgylch ein harfordir.

Fe wnaethon nhw roi cynghorion defnyddiol i ni ar bethau y gallwn ni eu gwneud i helpu i warchod ein byd morol. Mae Rheolwraig Prosiect Moroedd Byw Cymru, Nia Jones yn argymell y canlynol:

- lleihau (neu ddiweddu) defnydd plastig untro
- casglu sbwriel pan fydd ar y traeth
- cyrchu bwyd môr yn gynaliadwy
- lleihau'r defnydd o'r ynni yr ydym yn ei ddefnyddio gartref

Dywedodd:

"Mae dweud wrth bobl pa mor anhygoel yw ein bywyd gwyllt morol a pham ei bod yn bwysig gofalu amdano yn gallu gwneud gwahaniaeth."

## Dolffiniaid Risso

Nid oes gan Ddolffiniaid Risso ddannedd yn eu gên uchaf ac maen nhw’n gallu llyncu ysglyfaeth gyfan.



Dolffiniaid Risso. Credyd Eleanor Stone

## Gwlithen Fôr Noethdagellog

Daw’r enw Gwlithen Fôr Noethdagellog (nudibranch) o'r Lladin am "noeth " a "tagell", gan nad yw eu tegyll yn cael eu gorchuddio gan gragen fel rhai malwod morol eraill.



Nudibranch sea slug. Credit: Alex Mustard

## Sglefren Fôr Ddanhadlen

Mae’r Sglefren Fôr Ddanhadlen yn gallu newid rhyw o wryw i fenyw wrth iddynt aeddfedu.  Mae’r Sglefren Fôr yn 95% o dd?r ac nid oes ganddyn nhw ymennydd, gwaed na chalon.


Sglefren Fôr Ddanhadlen. Credyd: Paul Naylor

## Cimychiaid

Gall cimychiaid fyw am byth - nid yw heneiddio'n cynyddu eu siawns o farw, diolch i’r ensym o'r enw telomerase.



Cimwch. Credyd: Paul Naylor

## Morloi Llwyd yr Iwerydd

Mae Morloi Llwyd yr Iwerydd yn ddeifwyr arbennig a gallant gyrraedd dyfnder o tua 70 metr wrth chwilio am fwyd, gan ddal eu gwynt am hyd at 16 munud.



Morloi Llwyd yr Iwerdydd. Credyd: Alex Mustard

## Pysgodyn yr Haul

Pysgodyn yr Haul yw pysgodyn bonedd mwyaf y byd, gan gyrraedd hyd at dri metr o hyd. Gellir eu gweld yn ystod misoedd yr haf yn 'torheulo' ar wyneb y môr.



Pysgodyn yr Haul

## Molysgiaid

Mae brennig a molysgiaid eraill yn darparu cyswllt hanfodol yn y gadwyn fwyd ar gyfer llawer o'n rhywogaethau prinnaf.



Brennig a molysgiaid eraill. Credyd: Julie Hatcher

## Morfeirch

Mae dau rywogaeth o forfarch yn y DU: pigog/dreigiog [yn y llun] a thrwynog. Morfeirch yw'r unig rywogaeth sydd â gwryw beichiog: mae'r fenyw yn trosglwyddo'r wyau i'r gwryw sy'n hunan-ffrwythloni.



Morfarch. Credyd: Julie Hatcher

## Cranc heglog

Mae crancod heglog yn gallu byw hyd at 100 oed ac mae eu coesau'n 13 troedfedd.


Crancod heglog. Credyd: Dave Peake

## Morgath bigog

Mae'r Forgath bigog yn claddu ei hun yn y gwaddod yn ystod y dydd ac yn dod allan o’r llwch i hela yn y nos.


Thornback Ray. Credyd: Paul Naylor

## Anemoni’r Môr

Mae anemonïau môr yn byw wrth greigiau, gan ddal plancton ac anifeiliaid bach o'r d?r gyda'u crafangau.


Anemoni’r Môr. Credyd: Amy Lewis

## Heulforgi

Mae ail bysgodyn mwyaf y byd, yr heulforgi, i'w weld yn nyfroedd Cymru yn ystod misoedd yr haf. Fodd bynnag, mae eu niferoedd wedi gostwng dros 95% o amgylch y DU.



Heulforgi. Credyd: Alex Mustard

## Beth yw Moroedd Byw Cymru?

Mae prosiect Moroedd Byw Cymru yr Ymddiriedolaeth Natur yn defnyddio arian y Loteri Genedlaethol i ddod o hyd i ffyrdd y gallwn helpu i ofalu am ein cefnforoedd.

Mae'r prosiect yn ailgysylltu pobl i fyd cefnfor cyfoethog na ellir ei weld yn hawdd, ac yn helpu i'w troi'n gefnogwyr cadwraeth. Mae'r gweithgareddau a ariannwyd ganddynt yn cynnwys:

- ymchwil hanesyddol
- ramiadau pwll creigiau
- pencampwriaethau pentyrru cregyn meheryn
- gwylio bywyd gwyllt
- glanhau y traeth
- arolygon o Wyddoniaeth Dinasyddion
- hyfforddiant cadwraeth
- gweithdai crefft sydd wedi'u hailgylchu

Darganfyddwch fwy am weithgareddau Moroedd Byw Cymru ar Ddiwrnod Moroedd y Byd ar eu tudalen Facebook.

## Darganfyddwch fwy



## ddordeb hefyd mewn ...

A Little tern says hello to a Coast Care volunteer Northumberland Coast AONB



### cted with National Lottery support





A cuttlefish in its underwater habitat in the Solent Paul Naylor

## The Solent rides the wave to say no to plastic